**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

**24 Hydref 2016**

## Y GOFRESTR RISGIAU STRATEGOL

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybodaeth i'r aelodau am y Gofrestr Risgiau Strategol.

## Cyflwyniad

2 Mae Polisi Rheoli Risgiau Strategol yr Awdurdod yn diffinio risg strategol fel "digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".

3 Dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn cael adroddiad cryno ar y risgiau strategol o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a rhwng yr adegau hynny mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gallu gweld manylion llawn y gofrestr gyda'r swyddogion.

4 Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cofnodi'r lefelau risg presennol a'r lefelau risg yn y dyfodol ar ôl gweithredu gwrth-fesurau a gynlluniwyd.

5 Mae'r lefelau risg yn seiliedig ar bwyso a mesur pa mor debygol yw rhywbeth o ddigwydd, a beth fyddai'r canlyniadau petai'r peth hwnnw'n digwydd. Ceir disgrifiadau er gwybodaeth yn Atodiad 1.

**Gwybodaeth**

6 Rhoddwyd adroddiad i'r Aelodau yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Chwefror, i roi crynodeb o gynnwys y gofrestr risgiau strategol ar y pryd.

7 Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelid y byddai lefel y risg yn rhan fwyaf o'r risgiau a ganfuwyd – a oedd yn amrywio o 'uchel iawn' i 'ganolig isel' - yn cael eu lleihau.

8 Cydnabuwyd y byddai rhai risgiau a ganfuwyd (e.e. risg marwolaeth neu anaf difrifol i aelod o'r staff yn y gweithle) yn parhau ar yr un lefel o risg hyd yn oed ar ôl cynllunio gwrth-fesurau.

9 Ers hynny, cynlluniwyd a gweithredwyd gwrth-fesurau gyda'r nod o leihau neu osgoi cynnydd yn y lefelau risg.

10 Cafodd yr Aelodau wybod yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2016 fod y ddau risg mwyaf ar y pryd yn ymwneud ag: ymosodiad ar system gyfrifiadurol y Gwasanaeth; a lefel cydnerthedd y Gwasanaeth petai, yn sydyn, yn colli staff â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes ATAGC. Mae'r ddau beth yma'n parhau yn y categori risg 'uchel iawn'.

11 Mae'r swyddogion yn parhau i adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau, gan ychwanegu risgiau, tynnu risgiau oddi arni, ac ail-sgorio risgiau fel y bo'n briodol. Yn y cyfarfod, darperir crynodeb o'r cofnodion diweddaraf ar y gofrestr.

**Argymhelliad**

12 Bod yr aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â'r risgiau strategol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu.

**Atodiad 1**

## Dadansoddi risg

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOL-RWYDD | 5 Bron yn sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| | 4 Tebygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | 3 Posibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | 2 Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | 1 Annhebygol iawn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | 1 Dibwys | 2 Mân | 3 Cymedrol | 4 Arwyddocaol | 5 Mawr |
| | | CANLYNIAD | | | | |

## Graddfa blaenoriaeth risgiau

| Gwerth | Graddfa blaenoriaeth |
|---|---|
| 20-25 | Uchel iawn – risg yn annioddefol o uchel |
| 12-16 | Uchel – risg yn sylweddol |
| 8-10 | Uchel canolig – risg yn gymedrol |
| 4-6 | Isel canolig – risg ddim yn rhy ddrwg |
| 1-3 | Isel |